

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

**2013 No. 1793**

**Rheoliadau Gweithredu'r Cwricwlwm Lleol (Cymru) 2013**

**Cymhwyso deddfwriaeth sy'n ymwneud ag addysg i ddisgyblion a myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau astudio yn y cwricwlwm lleol**

**6.—**(1) At ddibenion y darpariaethau canlynol mae myfyriwr cwricwlwm lleol i'w ystyried yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol—

- (a) adrannau 317(1)(c), 451(1), 452(6), 453, 454(1), (3), (4), 455(1), 457(3), a 460 o Ddeddf 1996;
- (b) adran 462(2) o Ddeddf 1996 i'r graddau y mae'r diffiniad o “residential trip” yn gymwys i adrannau 452 a 455(1)(d) o Ddeddf 1996;
- (c) adran 62 o Ddeddf 1998; a
- (d) adran 29(3) o Ddeddf 2002.

(2) Mae'r diffiniad o “residential trip” yn adran 462(2) o Ddeddf 1996 yn cynnwys, at ddiben adran 457(4) o Ddeddf 1996, daith a drefnwyd gan neu ar ran corff llywodraethu ysgol arall a gynhelir y mae disgyblion yn ei mynychu at ddibenion dilyn cwrs astudio o fewn y cwricwlwm lleol.

(3) At ddibenion Pennod 3 o Ddeddf 1996, yn ychwanegol at yr amgylchiadau a nodir yn adran 462(3) o'r Ddeddf honno, mae disgybl i'w ystyried yn un sydd wedi ei baratoi mewn ysgol lle y mae'n ddisgybl cofrestredig am faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus a ragnodwyd os yw unrhyw ran o'r addysg a ddarperir gyda golwg ar gyfer paratoi'r disgybl ar gyfer yr arholiad hwnnw yn y maes llafur hwnnw wedi ei darparu i'r disgybl mewn ysgol neu fan arall a fynychwyd gan y disgybl at ddiben dilyn cwrs astudio o fewn y cwricwlwm lleol.